WcVA
CGGC

Gwneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd

Ein strategaeth ar gyfer 2022-27

Mae pobl yng Nghymru bob amser wedi dod ynghyd o'u gwirfodd pan maen nhw eisiau gwneud gwahaniaeth.

Heddiw, mae gan Gymru filoedd o fudiadau gwirfoddol, yn cynnwys pobl gyffredin sy'n cymryd camau bach i bob golwg sy'n arwain at wahaniaeth enfawr.

Ond rydyn ni'n gwybod bod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn anodd tu hwnt i bobl yng Nghymru a thu hwnt.

Mae mudiadau gwirfoddol hefyd wedi wynebu adegau anodd.

Rydyn ni wedi profi effeithiau'r pandemig, y newid yn yr hinsawdd a'r anghydraddoldebau cynyddol, ac mae newidiadau a heriau mawr o'n blaenau.

I oresgyn yr heriau hyn, mae angen i fudiadau gwirfoddol ddod ynghyd, trefnu ac edrych ymlaen er mwyn paratoi ar gyfer y dyfodol.

Dyma pam y ffurfiwyd CGGC yr holl flynyddoedd hynny yn ôl, er mwyn galluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.

Ac i wneud yn siŵr y gall pob un ohonom ni wynebu heriau heddiw, rydym ni wedi bod yn gweithio gyda'n staff a'n haelodau.

Gyda'n gilydd, rydyn ni wedi bod yn meddwl am yr hyn y gallwn ni ei wneud yn ystod y bum mlynedd nesaf i lunio dyfodol gwell ar gyfer Cymru, a hynny mewn modd cadarnhaol.

Rydyn ni eisiau gweithredu nawr i greu dyfodol lle mae mudiadau gwirfoddol a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant pawb.



Er mwyn llwyddo, bydd angen i'n sector fod yn amrywiol, yn barod i newid ac yn bartneriaid cyfartal yn y gwaith o wella llesiant yng Nghymru.

Y newid rydyn ni eisiau ei arwain ledled Cymru

Byddwn ni'n chwarae ein rhan yn y gwaith o wireddu hyn drwy arwain newid mewn dau brif faes i Gymru:

EIN NOD:

Mae'r sector gwirfoddol yn fwy amrywiol a gwydn

- **Mae pobl fwy amrywiol yn cymryd rhan mewn gwaith wirfoddol**
- **Mae adnoddau mwy amrywiol yn cryfhau'r ddarpariaeth**
- **Mae mudiadau yn fwy gwydn**

EIN NOD:

Mae mudiadau gwirfoddol yn bartneriaid cyfartal wrth gyflawni llesiant yng Nghymru

- **Mae mudiadau gwirfoddol yn arwain newid cadarnhaol**
- **Mae'r holl sectorau yn cydweithio mwy i gyflawni uchelgeisiau cyffredin**
- **Mae ein democratiaeth yn mynd ati'n well i gefnogi mudiadau gwirfoddol i gymryd rhan**

Ac er mwyn i CGGC sicrhau ein bod y gorau y gallwn ni fod, byddwn yn canolbwyntio ar:

EIN NOD:

Mae CGGC yn fwy gwydn

- **Mae CGGC yn ariannol gynaliadwy**
- **Mae CGGC yn addasu'n gadarnhaol i newid**
- **Mae CGGC yn rhoi mwy o gefnogaeth i'w bobl**

Amrywiol. Barod am newid. Partneriaid cyfartal.

Ynglŷn ag CGGC

Pwy ydym ni

Y corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru

Diben

Galluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd

Cenhadaeth

Bydd CGGC yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol drwy:

- **Cysylltu**
- **Galluogi**
- **Dylanwadu**

Nodau 2022–2027

Newid y bydd CGGC yn ei arwain ledled Cymru:

- **Mae'r sector gwirfoddol yn fwy amrywiol a gwydn**
- **Mae mudiadau gwirfoddol yn bartneriaid cyfartal wrth gyflawni llesiant yng Nghymru**

Newid y byddwn yn ei greu'n fewnol:

- **Mae CGGC yn fwy gwydn**

Gweledigaeth

Dyfodol lle mae mudiadau gwirfoddol a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant i bawb